

BRO MORGANNWG
CYNLLUN DATBLYGULLEOL NEWYDD 2021-2036

LLETMAU GLAS

Tachwedd 2025



PAPUR CEFNDIR - BP27



Crynodeb Gweithredol

- i. Paratowyd y papur cefndir hwn fel tystiolaeth ategol i Gynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Bro Morgannwg 2021 - 2036.
- ii. Mae Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12 (Chwefror 2024) (PCC) yn cynghori y dylid cynnig lletemau glas a'u bod yn destun adolygiad fel rhan o'r broses CDLI (mae paragraff 3.64 yn cyfeirio).
- iii. Felly, mae'r papur cefndir yn adolygu'r dynodiadau lletem las presennol a nodwyd ym Mholisi MG18 – Lletemau Glas, o Gynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg a fabwysiadwyd 2011 - 2026 ac yn ystyried a ddylid cadw, diwygio, ychwanegu at neu ddileu'r dynodiadau. Mae Polisi MG18 – Lletemau Glas yn nodi lletemau gwyrdd yn y lleoliadau canlynol:
 - 1 Rhwng Dinas Powys, Penarth a Llandochoau.
 - 2 I'r gogledd-orllewin o Sili.
 - 3 I'r gogledd o Wenfô.
 - 4 I'r de o Ben-y-bont ar Ogwr.
 - 5 Rhwng y Barri a'r Rhws.
 - 6 De Penarth i Sili; a
 - 7 Rhwng y Rhws ac Aberddawan
- iv. Yn ogystal â'r lletemau glas presennol a nodir uchod, mae'r asesiad lletem las hefyd yn ystyried dwy letem las arfaethedig ychwanegol a gyflwynwyd trwy Broses Safle Ymgeisydd CDLIN. Mae'r rhain yn y lleoliadau canlynol:
 - Tir rhwng Llanilltud Fawr a Llan-faes.
 - Tir i'r gogledd Trebefered, Llanilltud Fawr.
- v. Mae'r adolygiad lletem las yn defnyddio'r fethodoleg a baratowyd gan ymgynghorwyr LUC ar ran y deg awdurdod cynllunio lleol yn rhanbarth de-ddwyrain Cymru.
- vi. Mae'r asesiad yn dod i'r casgliad bod y rhan fwyaf o'r lletemau glas a ddiffinnir yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd, ac eithrio'r lletem las rhwng y Rhws ac Aberddawan ac i'r de o Ben-y-bont ar Ogwr, yn parhau i wasanaethu'n briodol ac y dylid eu cadw o fewn y CDLIN sy'n dod i'r amlwg. O ran y ddwy letem las a gynigir drwy broses safle ymgeisydd CDLIN, mae'r asesiad yn argymhell y dylid cynnwys y lletem las 'Rhwng Llanilltud Fawr a Llan-faes' yn y CDLIN.
- vii. Felly, bydd y lletemau glas canlynol yn cael eu cynnwys yn y CDLIN ym Mholisi DNP2.
 1. Rhwng Dinas Powys, Penarth a Llandochoau.

2. I'r gogledd-orllewin o Sili.
 3. I'r gogledd o Wenfô.
 4. Rhwng y Barri a'r Rhws.
 5. De Penarth i Sili; a
 6. Rhwng Llanilltud Fawr a Llan-faes.
- viii. Pan fydd dyraniadau tai arfaethedig fel y'u nodwyd ym Mholisi CDLIN HG1 yn gorwedd o fewn ffiniau'r lletem las a nodwyd, mae'r ffiniau wedi cael eu diwygio i adlewyrchu'r dynodiadau a'r cyfiawnhad a ddarperir.
- ix. Mae diwygiadau pellach i ffiniau lletem las hefyd wedi'u gwneud i adlewyrchu caniatâd cynllunio sydd eisoes yn bodoli lle mae unrhyw oblygiadau lletem las wedi cael eu hystyried yn barod drwy'r broses cais cynllunio rheolaidd.
- x. Mae'r lletemau glas canlynol wedi cael eu diwygio i adlewyrchu dyraniadau tai arfaethedig neu ganiatâd cynllunio sydd eisoes yn bodoli:
1. Rhwng Dinas Powys, Penarth a Llandochau.
 5. Rhwng y Barri a'r Rhws.
 6. De Penarth i Sili.
- xi. Yn ogystal â'r uchod, mae ffin y lletem las rhwng Dinas Powys, Penarth a Llandochau wedi cael ei ehangu i'r de o Ysbyty Llandochau i gyd-fynd â ffin diwygiedig yr anheddiad. Yn flaenorol, cafodd yr ardal hon ei heithrio o'r lletem las yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd 2011-2026 er mwyn galluogi ehangu'r ysbyty yn y dyfodol ac nid oes ei hangen mwyach. Dangosir y diwygiad hwn, nad yw'n cynnwys y tir i'r gorllewin o'r ysbyty a ddefnyddir fel cyfleuster iechyd awyr agored therapiwtig, yn Ffigur 1.



The Vale of Glamorgan Council

Directorate of Place

Civic Office

Holton Road

Barry CF63 4RU

LDP@valeofglamorgan.gov.uk

www.valeofglamorgan.gov.uk

